

# **Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council**

**Cofnodion y cyfarfod o'r Panel Gwaith y Clerc a gynhaliwyd Nos Fercher, 30 Mai 2018 yn Neuadd Pentref Groeslon**

**Minutes of the Clerks Working Group held at Groeslon Village Hall, Wednesday, 30<sup>th</sup> May 2018 at 7.00pm**

## **Yn bresennol / Present**

Cynghorwyr Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones ; Clive Bayley  
David Roberts, Clerc/Clerk.

### **1 Croeso'r Cadeirydd – Chairmans Welome**

Etholwyd Cyng. Clive Bayley l'r gadair. Aeth yn syth at y rhaglen.

### **2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. Hywel J Owen; Cyng. Gerwyn Owen; Cyng. Gerwyn Owen

### **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000**

Fe wnaeth y Clerc ddatgan buddiant ond gofynnwyd iddo aro gan fod y Panel angen gwybodaeth / The Clerk declared his interest but the Panel asked the Clerk to stay as information was required

### **4 Cytundeb Gwaith y Clerc / Clerks Contract of Employment**

Dosbarthwyd copi i bob aelod o gytundeb gwaith y Clerc oedd wedi ei ddyddio Medi 2006. Nid oedd y cytundeb wedi ei addasu ers 2006.

Barn yr aelodau oedd y dylid cynnal cyfarfod o'r Panel i addasu'r cytundeb. Trafodwyd dyletswyddau'r Clerc. Pawb o'r farn fod gofynion y swydd wedi newid yn sylweddol ers 2006. Angen adolygu'r swydd ddisgrifiad i adlewyrchu cyfrifoldebau heddiw.

***Penderfynwyd - fod y Cyngor yn cymeradwyo'r Panel i ddiweddarau cytundeb gwaith y Clerc a swydd ddisgrifiad y Clerc***

***Resolved- for the Council to give it's approval to the Panel to update the Clerks Contract of Employment and Job Description***

### **5 Cyflog y Clerc / Clerks Salary**

Adroddwyd gan y Clerc fod y cyflog wedi ei osod ar feincnod LC1b ers iddo gael ei benodi.

Mae'r meincnod hwn wedi ei sefydlu gan yr NLCC a SLCC a fabwysiadwyd gan Un Llais Cymru nol yn 2004. Mae'r meincnod yn parhau i fod yn gyfredol

Dywedodd y Clerc fod y swydd wedi datblygu a cyfrifoldebau ychwanegol ers ei benodi nol yn 2006 yn Roedd y meincnod yn awgrymu fod y cyflog I fod ar graddfa LC2 erbyn hyn yn bennaf

oherwydd ied gofynion cyfrifeg (RFO), nifer cyfarfodydd a phwyllgorau, maint y gyllideb, cyfrifoldeb am adeiladau a thiroedd (tair mynwent mynwentydd, chaeau chwarae a llochesi bws), nifer poblogaeth y plwyf ynghyd a cyfrifoldeb am y gwefan a chyfieithu.

Dosbarthwyd taflen i'r aelodau o'r cost i'r Cyngor fel a ganlyn

Ar sail Cytundeb 50 awr y mis

|  |
|--|
| <b>Cyflog Presennol</b> 50 awr Graddfa LC1b – Graddfa Cyflog 18-22 – Pwynt 22 pro rata =<br><b>£6,572 y flwyddyn</b>   |
| Cyflog yn ol y Meincnod NLCC/ SLCC 50 awr <b>Graddfa LC2a</b> – Pwynt Cyflog 26-29 – Ar uchafswm y raddfa Pwynt 29 pro rata <b>£8,254 y flwyddyn</b> – <b>cynnydd o £1,682 y flwyddyn i'r Cyngor</b> |
| Cyflog yn ol meincnod NLCC/ SLCC 50 awr <b>Graddfa LC2b</b> – Pwynt Cyflog 30-34 – Ar uchafswm y Raddfa Pwynt 34 pro rata <b>£9,591 y flwyddyn</b> – <b>cynnydd o £3,019 y flwyddyn i'r Cyngor</b>   |

'Roedd yr aelodau yn llawn sylweddoli fod cyfrifoldebau'r swydd wedi cynyddu a bod angen arfarnu'r swydd i adlewyrchu cyfrifoldebau'r swydd heddiw. 'Roedd y Clerc yn gofyn i'r Panel i weithredu o 1 Ebrill 2018.

Dyweddodd y Clerc dylai fod gan y Cyngor trefniant i adolygu trefniadau / amodau gwaith y Clerc yn flynyddol. Adroddwyd fod y cytundeb yn 50 awr y mis, neu 11.5 awr yr wythnos.' Roedd yr oriau yn llai na'r hynny sydd yn cael ei awgrymu fel "isafswm oriau" yn ôl y model ar sail maint y boblogaeth ond 'roedd y Clerc yn fodlon ar hyn o bryd gyda'r oriau cytunedig

***Penderfynwyd ar y canlynol-***

- i) Fod y Cyngor yn gofyn i'r Panel arfarnu swydd y Clerc trwy ddefnyddio meincnod yr NLCC/SLCC ac sydd wedi ei fabwysiadu ers 2004 gan Un Llais Cymru***
- ii) Fod y Cyngor yn cydnabod fod gofynion y swydd wedi newid yn sylweddol ers 2006 a bod yr arfarniad uchod yn debygol o olygu cost ychwanegol i'r Cyngor.***

***Resolved***

- i) That the Council asks the Panel to carry out an evaluation of the Clerks salary by using the NLCC/SLCC benchmark adopted by One Voice Wales in 2004.***
- ii) That the Council acknowledges that the responsibilities of the Clerks workload has increased significantly since 2006 and that the evaluation could result in additional cost to the Council***

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.05 yr hwyr / The meeting ended 8:05 pm**

**Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate**

**Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor**

**Signed by the Chairmam**

|                       |  |
|-----------------------|--|
| <b>Dyddiad - Date</b> |  |
|-----------------------|--|